Rhifyn 5, Medi 07 Pris: 75c

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

UCAC Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Cadw Ysgol – Cynnal Cymuned

Cyfarfod cyhoeddus Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint a'r Cyffiniau

Meryl Pierce

Siôn Mason-Evans

Meriel Parry

Liz Saville

Roedd hwn yn gyfarfod llwyddiannus dros ben wrth i nifer fawr ddod ynghyd i drafod dyfodol ein hysgolion pentref. Gyda'r lleihad yn nifer y disgyblion yng Nghymru roedd y pwnc yn un amserol a heriol a chafodd y siaradwyr gwadd groeso a gwrandawiad teilwng dros ben.

Dangosodd **Siôn Mason-Evans**, Pennaeth Ysgol Gynradd Llanwnnen, sut yr oedd ysgolion cynradd gwledig yn yr ardal honno (Cribyn, Cwrtnewydd, Llanwenog a Llanwnnen) yn mynd i'r afael â'r her o sicrhau bod disgyblion yn derbyn y cyfleoedd a'r profiadau sydd yn angenrheidiol i gael addysg gyflawn. Cafwyd portread o glwstwr gwirfoddol o ysgolion oedd yn cydweithio'n hapus ac yn derbyn cefnogaeth yr Awdurdod Addysg Lleol.

Yr Awdurdod Addysg Lleol oedd wedi gwneud cais i **Meriel Parry** gymryd gofal o ysgol fach a hithau eisoes yn bennaeth ar ysgol gynradd o gryn faint yng Ngwynedd. Byddai rhywun yn disgwyl i'r fath drefniant fod yn gam cyntaf tuag at gau ysgol ond erbyn hyn mae'r ysgol fach yn ffynnu diolch yn bennaf i natur benderfynol y pennaeth a'r athrawon eraill. Yn ôl Meriel Parry: '*mae 'na lawer o waith – yn enwedig i'r Pennaeth, ond gyda chefnogaeth y rhieni, y plant, yr athrawon a'r Llywodraethwyr, mae'n bosib sicrhau bod y cynllun yn llwyddo.*'

Yn 2005, o dan gynllun ad-drefnu Awdurdod Addysg Sir Ddinbych, cyhoeddwyd bod ysgol Gynradd Pant Pastynog i gau gyda dim ond 26 o blant yn mynychu'r ysgol. Cafwyd gorolwg gan **Meryl Pierce**, rhiant-lywodraethwraig ar yr ysgol, o'r cyffro wrth i'r pentref ymateb '*yn unfryd, yn frwdfrydig ac yn gadarnhaol*' i her y bygythiad. Bellach mae'r ysgol wedi tyfu'n sylweddol ac yn '*ateb anghenion a gofynion y gymuned*' gyfan ac mae cynlluniau pellach ar droed i'w sefydlu fel canolfan integredig fydd yn sicrhau addysg gydol oes.

Yn olaf, cafwyd cyfraniad gan **Liz Saville**, sydd, fel cynghorydd sir yng Ngwynedd, wedi gwneud sylwadau cyhoeddus ar bwysigrwydd ysgolion pentref ar sawl achlysur. Yn ôl Liz Saville, '*nid yw ysgol yn ynys yng nghanol cymuned. Mae ganddi rôl bwysig yn gymdeithasol, yn ieithyddol yn ddiwylliannol ac yn economaidd … rhaid ei datblygu i fod yn adnodd, yn ganolfan ac yn ganolbwynt y gymuned.*'

Roedd y drafodaeth a ddilynodd yn agored a bywiog gyda sawl cyfraniad oedd yn sicr o wneud i'r gynulleidfa gnoi cil. Cyfeiriodd rhiant o ardal Synod Inn at ymgyrch i gau ysgolion lleol yno, gan alw am sefydlu ysgol Bro Siôn Cwilt gan ddangos bod anghenion pob cymuned yn wahanol.

Gyda phenaethiaid, athrawon, rhieni, cynghorwyr, aelodau'r Cynulliad ac aelodau o wahanol sefydliadau cenedlaethol yn bresennol, sicrhaodd UCAC y byddai'r drafodaeth hon yn un fyddai'n parhau.

t2 Cysylltwch! t3 Risg wrth fuddsoddi! t4 Adnoddau

Datblygiadau Cwricwlaidd

Erbyn hyn dylai eich ysgol wedi derbyn cylchlythyron oddi wrth Grŵp Cymwysterau a Chwricwlwm Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd canlynol:

- Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2, 2007/08
- Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3, 2007/08
- Sgiliau Allweddol, Sylfaenol a Gweithredol a TGAU yng Nghymru

Os nad ydych wedi gweld y cylchlythyron, gofynnwch i'ch Pennaeth neu'ch rheolwr llinell am ragor o fanylion.

Bydd arweiniad pellach yn cyrraedd eich ysgol yn ystod y tymor gan gynnwys y llyfryn *Trefniadau Asesu ac Adrodd Statudol 2008* yn amlinellu cyfrifoldebau ysgolion. Bydd y ddogfen hefyd ar gael o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru www.cymru.gov.uk

Byddai Adran Addysg UCAC yn croesawu eich sylwadau ar y datblygiadau fel bod modd i ni adlewyrchu barn ein haelodau mewn cyfarfodydd gyda CBAC a Grŵp Cymwysterau a Chwricwlwm APADGOS, sef ACCAC gynt.

Elaine Edwards (Ysgrifennydd Adran Addysg) elaine@athrawon.com

Cyfrifo eich pensiwn – rhai newidiadau

Athrawon 55 mlwydd oed a throsodd sydd yn dewis ymddeol cyn cyrraedd 60 mlwydd oed.

Dan yr hen drefn byddai athro yn ymddeol yn 55 mlwydd oed yn ildio 15.7% o'i dalpswm llawn ac yn ildio 25.8% o'i bensiwn blynyddol llawn. Byddai'n colli llai pe byddai'n ymddeol yn nes at gyrraedd ei ben-blwydd yn drigain.

O 1 Hydref 2007 bydd y lleihad actiwaraidd hwn yn dilyn y raddfa a nodir yn y tabl isod gyda'r un canran o ostyngiad o'r talpswm ac o'r pensiwn blynyddol.

oed ymddeol	canran yn llai
55	22.7
56	18.7
57	14.5
58	10.0
59	5.2

Cofiwch mai dyna'r pensiwn y bydd yr athro yn ei dderbyn gweddill ei oes; ni fydd yn cael pensiwn llawn wedi cyrraedd trigain. Dylid nodi bod y ffigyrau hyn yn berthnasol i athrawon oedd yn cyfrannu tuag at y Cynllun Pensiwn Athrawon cyn 1 Ionawr 2007. Mae'r rheolau'n wahanol ar gyfer athrawon sydd wedi dechrau cyfrannu tuag at y cynllun o ddydd Calan eleni ymlaen.

Mae fersiwn diwygiedig o daflen UCAC *Pensiwn wedi'i leihau yn Actiwaraidd* ar gael o wefan UCAC www.athrawon.com, neu cysylltwch â'r Brif Swyddfa (01970 639950) am gopi caled.

Mae Datganoli yn medru bod yn fanteisiol i gyflogaeth gweithwyr Cymru

Nyrsys yn Lloegr yn derbyn codiad cyflog o 2.5%. ond yn anffodus gwneir hyn mewn dau daliad, sydd mewn gwirionedd yn golygu mai codiad cyflog o 1.9% y maen nhw'n ei dderbyn.

Nyrsys yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn derbyn yr arian mewn un codiad cyflog: 2.5% yw'r codiad cyflog a 2.5% maen nhw'n ei dderbyn!

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Robert Howells
Ysgrifennydd Cyffredinol: Gruff Hughes
Golygydd *Yr Athro:* Gwenllïan Dafydd
Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Nan Williams, Prif Swyddfa UCAC, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AZ Ffôn: 01970-639950
Ffacs: 01970-626765 E-bost: ucac@athrawon.com www.athrawon.com
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

Y Swyddfa Cofnodion Troseddol

Troseddau heb ddarfod – gwahaniaeth wrth ei ddehongli

Mae un cwestiwn ar ffurflen y Swyddfa Cofnodion Troseddol (*CRB check*) yn gofyn a oes unrhyw droseddau heb ddarfod (*unspent convictions*). Os yw'r cyfnod ailsefydlu angenrheidiol o ddeng mlynedd wedi dod i ben, y cyngor yn ôl NACRO (elusen lleihau troseddu) yw ateb 'na' i'r cwestiwn.

Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ei hun yn datgan yr un fath: "Os yw'r cyfnod ailsefydlu angenrheidiol wedi dod i ben . . . yr ateb cywir i'r cwestiwn *A oes gennych droseddau sydd heb ddarfod?* yw na." Yn ôl uwch-swyddogion Llywodraeth y Cynulliad hefyd dyna mae'r rheoliadau perthnasol yn ei ddweud.

Ond gŵyr UCAC am achos lle honnodd AALI fod athro wedi ateb y cwestiwn yn anghywir ac felly wedi twyllo, oherwydd er iddo droseddu flynyddoedd yn gynt nid oedd ganddo bellach droseddau heb ddarfod yn erbyn ei enw.

Mae UCAC yn derbyn bod hawl gan gyflogwyr i gael gwybod am bob trosedd, rhybudd neu ymrwymiad yn ymwneud ag unrhyw un yn gweithio â phlant, boed y cyfnod ailsefydlu wedi dod i ben ai peidio. Yn yr ystyr yma, mae sôn am gyfnod ailsefydlu yn amherthnasol ac mae gofyn y cwestiwn a oes troseddau heb ddarfod yn amherthnasol.

Ond mae'n gwbl annerbyniol nad oes gwell dealltwriaeth rhwng y cyngor a roddir gan gyrff megis y CRB a NACRO ar y naill law, a dehongliad Awdurdodau Lleol ar y llaw arall. Mewn ymateb, mae UCAC wedi cysylltu â phob AALI a byddwn hefyd yn pwyso ar Lywodraeth y Cynulliad i gylchlythyru'r awdurdodau i roi arweiniad cwbl glir iddynt i geisio sicrhau nad oes yr un athro arall yn cael ei amau ar gam.

Cysylltwch! Cysylltwch! Cysylltwch!

Pan fydd ymchwiliad yn digwydd i gŵynion, honiadau neu ddigwyddiadau mewn ysgol neu goleg bydd gofyn ar rai achlysuron i chi wneud datganiad ysgrifenedig.

- **Cyngor UCAC yw eich bod, *ar bob achlysur*, yn trafod unrhyw gais am dystiolaeth gydag un o Swyddogion Maes yr Undeb**

Rydym fel swyddogion ar gael i drafod pa mor briodol yw cyflwyno adroddiad ysgrifenedig a hefyd i drafod cynnwys unrhyw adroddiad. Yn anffodus, mae UCAC wedi gorfod delio gyda sefyllfaoedd pan fo aelodau wedi cyflwyno tystiolaeth sydd yn adrodd am ddigwyddiad ond hefyd ym mynegi barn. Gall hyn arwain at densiynau a gwrthdaro yn y gweithle a hefyd gall unrhyw dystiolaeth gael ei herio mewn gwrandawiad disgyblu.

- **Cyngor UCAC yw eich bod, *ar bob achlysur*, yn trafod cynnwys unrhyw adroddiad gydag un o Swyddogion Maes yr Undeb.**

Daw galw ar brydiau i wneud datganiadau gerbron gwrandawiad disgyblu. Gall hyn osod straen ar unrhyw athro neu ddarlithydd a rhaid cofio bod gennych yr hawl i gael cwmni cyfaill neu swyddog undeb mewn cyfarfod o'r fath. Nid hawl i'r person sydd yn wynebu gwrandawiad disgyblu, yn unig, yw'r hawl hwnnw.

- **Cyngor UCAC yw eich bod, *ar bob achlysur*, yn gofyn am gefnogaeth yr Undeb cyn mynychu unrhyw wrandawiad.**

Os ydych chi eich hunan yn destun cwyn neu yn wynebu ymchwiliad, yna cysylltwch â ni **HEB OEDI!**

Eich Undeb chi yw UCAC ac rydym ar gael i gyfarfod, i drafod materion dros y ffôn neu i ohebu trwy gyfrwng e-bost er mwyn sicrhau'r gefnogaeth orau bosib i chwi.

Dilwyn Roberts-Young, Swyddog Maes y De

Risg wrth fuddsoddi!

Cyn buddsoddi, aseswch pa fath o risg rydych chi'n fodlon ei chymryd.

Hoffem i gyd weld ein harian, y buon ni'n gweithio mor galed i'w ennill, yn gwneud elw ardderchog. Ond rhaid mentro cyn i'r arian ennill yn eu gwerth – weithiau cymryd risg uchel – a gall eich arian, cofiwch, hyd yn oed golli yn eu gwerth. Felly oes yna ffyrdd o fuddsoddi'n saff?

Pyramid o Fuddsoddiadau

Mae creu cydbwysedd o ran y risg drwy osod eich arian mewn amrywiaeth o fuddsoddiadau yn bwysig. Mor wir yr hen ddywediad, 'Peidiwch â rhoi eich wyau mewn un fasged!' Beth am edrych ar eich buddsoddiadau ar ffurf pyramid gan bwyso a mesur y risg a'r elw a wneir?

- Ar waelod y pyramid, ar y darn lletaf, ni ddylai bod elfen o risg i'ch cynilon ariannol.
- Dylai eich buddsoddiadau risg isel neu ganolig fod yn y canol, megis bondiau corfforaethol.
- Dylid gosod eich cronfeydd o fuddsoddiadau mewn diwydiannau neu wledydd penodol ar y lefel uchaf wedyn
- Ar ben y pyramid dylid cynnwys buddsoddiadau yn y farchnad stoc mewn cwmnïau sydd ar y rhestr.

Risg Isel Iawn

Mewn buddsoddiadau risg isel iawn ceir:

- **incwm gwarantedig a bondiau twf gwarantedig** a werthir gan gwmnïau yswiriant
- **bondiau ar raddfa gosodedig** gan fanciau a chwmnïau adeiladu
- amrywiaeth o gynlluniau gan y Cynilon Cenedlaethol.

Drwy glymu eich arian am gyfnodau penodedig rydych yn ennill llog penodedig. Drwy ddewis opsiwn diogel, isel felly yw eich enillion. Os byddwch yn ennill llai na graddfa chwyddiant bydd gwerth eich arian yn gostwng. Er enghraifft os ydy graddfa chwyddiant yn 2% rhaid i'ch arian ennill 2.6% os ydych yn talu treth incwm ar y lefel sylfaenol a 3.4% os ydych yn talu treth incwm ar y lefel uwch.

Risg Isel

Dyma'r lefel nesaf. Cofiwch, *nid yw risg isel yn gyfystyr â dim risg o gwbwl*. Gellwch leihau'r risg drwy wasgaru eich buddsoddiadau yn eang, drwy gronni eich cyllid gyda chyllid pobl eraill sy'n cynilo, sef cronfeydd wedi eu cyfuno.

Er enghraifft, ceir y risg isaf mewn **cronfeydd bondiau corfforaethol**. IOU ydyn nhw mewn gwirionedd, gyda chwmnïau'n addo talu llog a thalu'n ôl y swm o arian yn gyflawn ar ddiwedd y cyfnod penodedig – fel arfer rhyw bum mlynedd. Po fwyaf y llog, mwyaf yn y byd yw'r risg. Y peryglon yw na fydd y cwmni'n gallu fforddio talu'r llog neu os aiff yn fethdalwr ni allant ad-dalu'r cyfalaf. Ond drwy gael amrywiaeth o fondiau corfforaethol yn y cronfeydd gellir gwasgaru'r risg.

Risg Canolig

Arferid ystyried **cronfeydd gydag-elw** yn isel o ran risg gan eu bod yn buddsoddi mewn amrywiaeth o gyfranddaliadau, gilts (IOU y llywodraeth) bondiau ac eiddo. Cânt eu rhedeg gan gwmnïau yswiriant a phan fydd y cronfeydd yn llewyrchus byddant yn cadw cyfran o'r arian i gynorthwyo'r gronfa mewn blynyddoedd gwael.

Dim ond y cryfaf o'r cronfeydd gydag-elw sy'n gallu buddsoddi cyfartaledd rhesymol o'u cronfa mewn **cyfranddaliadau** – sy'n hanfodol i sicrhau'r potensial am dwf dros y tymor hir. Rhaid ystyried cyfranddaliadau fel buddsoddiad dros gyfnod canolig neu hir dymor oherwydd gall eu gwerth godi'n uchel a hefyd gallant ostwng yn isel.

Buddsoddiad arall yw **bondiau** yn y farchnad stoc gwarantedig sy'n cynnig rhai o enillion y farchnad ond gan warchod eich cyfalaf dros gyfnod penodol – fel arfer dros bum i chwe blynedd. Cânt eu cysylltu ag un neu fwy o indecsau'r farchnad stoc megis y FTSE- 100. Ond ni fyddwch yn derbyn y difidend a delir ar y cyfranddaliadau, a rhaid colli rhan o'r enillion er mwyn sicrhau'r gwarant a roddir.

Rhaid i chi wneud yn siwr beth yw'r termau dros dalu allan yn derfynol, a chofiwch fod risg yn gysylltiedig â'r buddsoddiadau hyn. Os bydd y cwmni yn methu yna ni chewch yn ôl y swm gyflawn a warantwyd.

Risg Uchel

Os yw'r risg yn uchel, gall cronfeydd wedi eu cyfuno, megis **ymddiriedolaeth unedol** a **chwmnïau buddsoddi pen agored** (sef OEIC's) greu arian da, gan ddibynnu beth sy'n gynwysedig ynddynt. Bydd rhai'n buddsoddi mewn bondiau a chyfranddaliadau, eraill mewn cyfranddaliadau'n unig.

O ran faint o risg rydych yn ei gymryd, mae pen uchaf y pyramid risg yn cynnwys y cronfeydd sy'n buddsoddi mewn un sector, megis technoleg neu gynhyrchu, neu mewn ardal arbennig megis Dwyrain Ewrop neu'r Pasiffig.

Mae'r ymddiriedolaeth buddsoddi'n debyg iawn i'r ymddiriedolaeth unedol a'r OIECs, ond oherwydd eu bod yn gwmnïau a fasnachir ar y farchnad stoc mae eu prisiau'n amrywio yn ôl gwerth a sentiment.

Yn olaf, ar gopa'r pyramid, mae'r bobol hynny sydd o'u pen a'u pastwn eu hun yn prynu cyfranddaliadau yn y farchnad stoc mewn cwmnïau unigol.

Cyn gwneud buddsoddiad trafodwch eich anghenion ag ymgynghorwr ariannol:

Gofalaeth Asedau Sterling
Ffôn: (01970) 617622
E-Bost: financial@sterling-a-m.com

Coleg Cymraeg Ffederal – ymrwymiad Llywodraeth ond rhaid dal ati i bwyso

Mae UCAC yn falch bod sefydlu Coleg Cymraeg Ffederal o'r diwedd yn rhan o raglen Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r undeb wedi bod yn gefnogol ac yn flaengar o'r cychwyn yn yr ymgyrch dros sefydlu Coleg Cymraeg Ffederal er mwyn datblygu Addysg Uwch cyfrwng Cymraeg. Bu swyddogion yr undeb yn dadlau dros gael Coleg Cymraeg Ffederal ar bob cyfle yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Bellach mae Llywodraeth glymblaid y Blaid Lafur a Phlaid Cymru wedi ymrwymo i sefydlu coleg o'r fath, ac mae'r ddogfen *Cymru'n Un* yn datgan yr ymrwymiad fel a ganlyn:

Byddwn yn sefydlu Rhwydwaith Addysg Uwch Cyfrwng-Cymraeg – y Coleg Ffederal – er mwyn sicrhau darpariaeth Gymraeg yn ein prifysgolion.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr hefyd yn cefnogi'r bwriad, fel y dengys cymal penodol yng Nghytundeb Cymru Gyfan, dogfen y 'glymblaid enfys' fel y'i gelwid. Bydd y cytundeb cyffredinol yma ymhlith yr holl bleidiau yn sicr o hwyluso'r broses o symud ymlaen i sefydlu'r coleg.

Bydd sefydlu Coleg Cymraeg Ffederal yn golygu creu sefydliad – corff newydd – a fydd â'r awdurdod statudol a'r cyfrifoldeb penodol i ddatblygu ac ehangu addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Bydd yn golygu sefydliad aml-safle, sef sefydliad gyda changhennau yn y colegau unigol. Bydd pob cangen unigol mewn coleg yn gyfrifol am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o'i fewn.

Y cam nesaf fydd pwyso ar Jane Hutt, y Gweinidog Addysg, a Phwyllgor Dysg a Menter y Cynulliad (Cadeirydd: Gareth Jones AC) i roi blaenoriaeth i sefydlu'r coleg. Mae symud ymlaen yn ddiymdroi yn hanfodol gan fod y mater wedi ei anwybyddu cyhyd, ac mae diffyg arweiniad o fewn addysg uwch yn cael effaith andwyol ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion uwchradd.

Mae'r sefyllfa bresennol yn warthus. Ar hyn o bryd, dim ond 3% o fyfyrwyr sy'n astudio unrhyw beth trwy'r Gymraeg ac eithrio'r iaith Gymraeg a'i llenyddiaeth. Cyllideb y sector addysg uwch yng Nghymru yn 2007/08 yw £276 miliwn. O'r cyfanswm hwn, dim ond £1.3 miliwn, sef 0.5% sy'n cael ei wario ar addysg trwy'r Gymraeg.

Mae ugain o gyrff addysgol a diwylliannol cenedlaethol yn cefnogi'r alwad am sefydlu Coleg Cymraeg Ffederal, a bydd eu cefnogaeth yn parhau'n allweddol hyd nes y gwireddir y bwriad.

Adnoddau, Gwefannau a Chyhoeddiadau

Awyr lân i blant o'r Wcrain

Daeth cais i swyddfa UCAC o ddinas Kiev gan Fwrdd Cronfa Leleka. Eglurwyd fod Cronfa Leleka yn fudiad wedi ei gofrestru yn adran Gweinyddiaeth Cyfiawnder (Ministry of Justice) dinas Kiev, gan bobl sy'n dymuno trefnu gwyliau i wella iechyd plant o'r Wcrain.

Gofynnwyd inni anfon eu cyfeiriad at ein haelodau a sôn am brosiect newydd y Bwrdd, sef "Awyr Iach". Nod y prosiect hwn yw trefnu gwyliau i wella iechyd plant ac ieuenctid o'r Wcrain, sef ardal sy'n dal i ddioddef effeithiau cwmwl gwenwynig Chernobyl.

Maent yn gobeithio y bydd teuluoedd neu grŵp o deuluoedd yn fodlon rhoi llety i blant o'r Wcrain dros y Nadolig; rhoi cyfle iddynt fwyta bwyd maethlon di-ymbelydrol a chyfle i lenwi ysgyfaint efo awyr iach, glân.

Cadeirydd y Bwrdd yw Yurij Slobodyanuk, ac mae'n gofyn i unrhyw un sy'n dymuno helpu i gysylltu â Chronfa LELEKA. Dyma ymateb i'w gais, a nodi'r cyfeiriad:

P.O.Box 328,Kiev-2, 02002, Ukraine.
Ffacs: +38+044+5624119 e-bost: fund_leleka@ukr.net

"Yn gymaint â'i wneuthur i un o'r rhai hyn . . ."

Cymru a Rhyfel Cartref Sbaen Arddangosfa Breuddwydwyr Doeth a Ffôl

Prosiect addysgol, dwyieithog yw *Breuddwydwyr Doeth a Ffôl*, sy'n cynnwys arddangosfa deithiol, DVD, cyhoeddiad newydd lliw, set o bosteri a gweithlyfr i fyfyrwyr. Cynorthwyodd ddisgyblion o dair ysgol â'r gwaith o ddylunio a chynhyrchu'r chwe phanel, y llyfr, y gerddoriaeth a'r delweddau ar y DVD.

Menter newydd Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn y Deml Heddwch, Caerdydd ydyw ac fe'i cefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL).

Mae'r arddangosfa yn nawr yn mynd ar daith ledled Cymru (caiff rhagor o leoliadau eu cadarnhau cyn bo hir):

2007

01 Hyd - 04 Tach	Parc Treftadaeth Cwm Rhondda, Trehafod
06 Tach - 30 Tach	Pen-y-bont
Rhagfyr	Caerffili

2008

30 Ion - 12 Chwe	CMRC, Y Deml Heddwch, Caerdydd (+ Cynhadledd / Gŵyl 9-10 Chwefror)
13 Chwe - 30 Maw	Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
07 Ebr - 10 Mai	Amgueddfa Pont-y-pŵl
12 Mai - 11 Gor	Canolfan Etifeddiaeth Bersham, Wrecsam
Medi	Amgueddfa Pontypridd

2009

Awst	Castell-nedd Port Talbot

Ym mhob safle bydd gweithdai i fyfyrwyr ysgol gan Phil Cope.

Adrannau Addysg y Cynghorau lleol sydd yn bennaf gyfrifol am drefnu'r ymweliadau gan ysgolion, ond mae modd i athrawon / ysgolion unigol wneud trefniadau i dderbyn yr arddangosfa yn eu hardaloedd hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Phil Cope ar 01656 870 180 neu phil.cope@talktalk.net

RSPCA yn rhyngweithiol

Cyfle i blant ddysgu mwy am yr RSPCA a lles anifeiliaid

Mae fersiwn Gymraeg o adnodd addysgol RSPCA yn awr ar gael yn rhad ac am ddim ar-lein.

Mae'r adnodd, sef 'Anifeiliaid a ni', yn addas ar gyfer CA1 a 2, ac mae wedi'i gysylltu â chwricwlwm Cymru. Mae nodiadau a thystysgrifau i athrawon, yn ogystal â thrawsgrifiadau o'r clipiau fideo.

"Mae Addysg RSPCA yn cefnogi athrawon i feithrin dinasyddion sy'n gyfrifol ac yn wybodus, ac mae'r wefan hon yn arf dysgu cyffrous a gwerthfawr wrth gyflawni hyn," esboniodd Louise Scriven, Rheolwr Rhanbarthol Addysg Cymru a'r Gorllewin ar gyfer yr RSPCA. "Mae'n adnodd sy'n weledol liwgar a hwyliog, a gellir ei ddefnyddio gyda bwrdd gwyn rhyngweithiol neu ar gyfrifiadur."

Drwy amrywiaeth o weithgareddau megis tynnu a llusgo, fideo, animeiddio a chwis, bydd disgyblion yn dysgu ynghylch lles anifeiliaid, gofalu amdanynt a gwaith yr RSPCA.

Ewch i gael cip ar adnodd rhyngweithiol newydd yr RSPCA yn www.rspca-education.org.uk

Cynadleddau Llwybrau Dysgu 14-19

Yn ystod mis Tachwedd 2007 bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhedeg dwy gynhadledd dros gyfnod o dridiau yr un, o dan y teitl **Gweithredu Llwybrau Dysgu 14-19 trwy Gydweithio a Chydweithrediad**. Bydd y ffocws ar ddatblygu arfer da mewn cydweithio a chydweithredu, o sefyllfa strategol i sefyllfa weithredol.

Diwrnod 1 Cynllunio a Chydweithio Strategol
Cynulleidfa darged i gynnwys: Penaethiaid, Uwch Reolwyr ym myd Addysg, Cyfarwyddwyr Addysg.
Diwrnod 2 Goresgyn Anawsterau i Gydweithio
Cynulleidfa darged i gynnwys: Dirprwy Benaethiaid a Rheolwyr Canol mewn Addysg
Diwrnod 3: Astudiaethau Achos Ymarferwyr mewn Cydweithio
Cynulleidfa darged i gynnwys: Rheolwyr Cwricwlwm, Athrawon, Darlithwyr, Hyfforddwyr a Rheolwyr Cefnogi Dysgu

Lleoliad:
- Gogledd Cymru 7fed, 8fed, 9fed Tachwedd 2007 Venue Cymru, Llandudno
- De Cymru 12fed, 13eg,14eg Tachwedd 2007 All Nations Centre, Caerdydd

Bwriad y Cynadleddau yw:
- codi ymwybyddiaeth o les cydweithredu a chydweithio o fewn agenda 14-19
- cyfle i gynrychiolwyr rannu syniadau a mynegi barn
- sicrhau bod gan gynrychiolwyr ddealltwriaeth lwyr o beth sydd angen ei gyflawni i sicrhau amrediad Llwybrau Dysgu ledled Cymru.

Danfonir gwahoddiadau i'r sawl sydd â rôl allweddol mewn gweithredu Llwybrau Dysgu neu cysylltwch â 14-19@wales.gsi.gov.uk